



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Cais Cyfiawnhad Rheoleiddiol ADBU
Yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd
Ystafell 108
55 Whitehall
Llundain
SW1A 2EY

Hydref y 23^{ain} 2014

**Rheoliadau Cyfiawnhau Arferion sy'n ymwneud ag Ymbelydredd Ïoneiddio 2004.
Ymgynghoriad ynghylch Penderfyniad Arfaethedig yr Ysgrifennydd Gwladol, megis
Awdurdod Cyfiawnhaol, ynghylch Cyfiawnhad Rheoleiddiol Adweithydd Dŵr
Berwedig Uwch y Deyrnas Unedig (ADBU DU)**

Diolch i chi am ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch eich penderfyniad arfaethedig ynglŷn â'r ADBU DU y mae Hitachi-GE Nuclear Energy Ltd yn ei arfaethu. Rydym yn ymwybodol o gynlluniau Hitachi-GE i godi'r ADBU DU yn y Wylfa yng ngogledd Cymru ac Oldbury yn Ne Swydd Gaerloyw.

Dywed Ail Gyfrol y ddogfen benderfynu arfaethedig bod Asesiad Cynllun Generig (ACG) o'r ADBU DU yn cael ei gynnal gan Asiantaeth yr Amgylchedd (AA) a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (SRhN), a bod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) â rhan weithredol yn y broses ACG ar gyfer yr ADBU DU.

Gallaf gadarnhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru, sydd â'i gyfrifoldebau'n cynnwys rheoleiddiad amgylcheddol safleoedd niwclear yng Nghymru, yn cydweithio'n agos ag AA a'r SRhN ynghylch y ACG ar gyfer y cynlyn adweithydd hwn, ac y'n cynrychiolir ar Fwrdd Rhaglen ACG AA.

Mae'r cydreoleiddiwy'r yn awr wedi cwblhau can cloriannu cyntaf yr ACG ar gyfer yr ADBU DU, ac wedi cyhoeddi eu hadroddiadau cloriannu sy'n egluro eu casgliadau hyd yn hyn.

Gallaf gadarnhau, hefyd, y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n defnyddio ein grymoedd rheoleiddiol i sicrhau bod:

- Y gollyngiadau a'r gwarediadau gwastraff ymbelydrol o unrhyw orsafoedd pŵer niwclear newydd yng Nghymru sy'n defnyddio'r ADBU DU o fewn cyfyngiadau a ffiniau dogn, ac wedi'u trefnu fel bo'r dognau i bobl cyn lleied ag y bo modd, o fewn rheswm, a bod yr effaith ar yr amgylchedd yn fechan.

Tŷ Cambria □ 29 Heol Casnewydd □ Caerdydd □ CF24 0TP
Cambria House □ 29 Newport Road □ Cardiff □ CF24 0TP
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

Annwyl Syr/Fadam,

Ein cyf/Our ref:
Eich cyf/Your ref:

Tŷ Cambria / Cambria House
29 Heol Casnewydd / 29 Newport Road
Caerdydd /Cardiff
CF24 0TP /CF24 0TP

Ebost/Email:

Isobel.moore@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Isobel.moore@naturalresourceswales.gov.uk

Ffôn/Phone:

03000 654379

- Effaith gwastraff a gollyngiadau anymbelydrol eraill o unrhyw orsaf bŵer newydd yng Nghymru a seilir ar ADBU DU ar bobl a'r amgylchedd cyn lleied ag y bo modd, ac yn dderbyniol.

Edrychwn ymlaen at barhau i weithio â'n partneriaid rheoleiddiol yn ystod cam nesaf y broses Asesiad Cynllun Generig ar gyfer yr ADBU.

Cysylltwch â mi, os gwelwch yn dda, os dymunwch drafod unrhyw agwedd yn fanylach. Yn ddiffuant,



Isobel Moore

Pennaeth Busnes, Rheoleiddio ac Economeg